Polycarp: 69–155 oc

Cael ei losgi tros ei gred

Dewrder / ffyddlondeb

Roedd y Cristnogion cynnar yn wynebu peryglon mawr. Roedden nhw'n gwrthod addoli duwiau'r Rhufeiniaid. Duwiau fel Mawrth, Iau a Mithras. Dim ond un duw oedd gan y Cristnogion, sef Tad Iesu Grist. Yn wir, roedd y Rhufeiniaid yn addoli yr Ymerawdwr. Iddyn nhw roedd ef hefyd yn dduw i'w addoli. Roedd yr Ymerawdwr yn disgwyl i bawb yn yr Ymerodraeth ei addoli ynghyd ag addoli'r duwiau eraill.

Penderfynodd yr Ymerawdwr ymosod ar arweinwyr y Cristnogion.

"Mae'n rhaid i ni gael gwared â dilynwyr y Crist yma ar unwaith," meddai wrth ei filwyr. "Os bydd yr arweinwyr yn cael eu lladd efallai y bydd y bobl gyffredin wedyn yn gwrthod addoli Crist ac yn addoli ein duwiau ni."

Un o'r arweinwyr hyn oedd Polycarp, Esgob Smyrna. Roedd Polycarp mewn gwth o oedran. Clywodd ei ffrindiau fod milwyr yn Ymerawdwr yn chwilio amdano.

"Mae'n well i ti fynd i guddio neu mi fydd y milwyr yn siŵr o'th ddal." Bu Polycarp yn cuddio yn nhŷ un o'i ffrindiau am ddyddiau. Ond, un bore, rhuthrodd tri o filwyr yr Ymerawdwr i mewn. Roedd hi'n rhy hwyr. Ymosodwyd ar bawb oedd yn y tŷ a daethpwyd o hyd i Polycarp yn cuddio yn seler y tŷ.

Daethpwyd ag ef i'r arena fawr. Roedd torf fawr wedi ymgynnull. Roedden nhw wedi cael pnawn i'w gofio. Rasus y cerbydau rhyfel. Ymladd rhwng y gladitoriaid, a'r llewod wedi ymosod ar y rhai oedd yn erbyn yr Ymerawdwr. Pnawn i'w gofio'n wir! Ac yna dyma'r newyddion bod Esgob Smyrna wedi'i ddal. Felly dyma'r dorf yn aros i weld beth oedd yn mynd i ddigwydd iddo.

"Lladdwch ef! Llosgwch ef!" bonllefai'r dorf.

Arweiniwyd ef o flaen y dorf. Clywodd lais yn galw arno, "Polycarp, rwyf am i ti fod yn ddewr. Cofia dy fod yn was i mi." Roedd yn sicr mai llais Iesu oedd y llais hwn. Meddai un o'r milwyr wrtho,

"Dywed dy fod yn mynd i addoli Cesar ac fe'th ollyngaf yn

rhydd. Melltithia'r Crist." Ac meddai Polycarp,

"Am wyth deg a chwech o flynyddoedd rwyf wedi dilyn Iesu Grist. Fedra i ddim ei wadu yn awr," atebodd Polycarp.

"Llosgwch ef!" gwaeddai'r dorf unwaith yn rhagor.

Tra oedd Polycarp yn gweddïo dechreuodd rhai o'r dorf baratoi tanllwyth o dân. Dyna lle'r oedden nhw'n casglu priciau a gwellt i wneud coelcerth werth chweil. Taflwyd Polycarp i'r tân. Trywanodd un o'r milwyr ef â dagr. Dyna lle'r oedd y milwyr yn gwylio'r goelcerth. Roedden nhw'n sicr bod Polycarp yn gweddïo tra oedd y fflamau'n llosgi o'i gwmpas.

Er bod llawer o'r dorf yn gweiddi, roedd yna ambell un wedi rhyfeddu o'i glywed yn gweddïo ac yntau wedi cael ei gam-drin.

"Yn sicr," meddai un o'r dorf, "roedd Polycarp yn ddyn arbennig iawn. Roedd o'n fodlon marw dros yr hyn roedd o'n ei gredu.

Ac felly, ar Chwefror 23, yn y flwyddyn 155, y bu Polycarp farw.

"Dwg ar gof iddynt eu bod i ymostwng i'r awdurdodau sy'n llywodraethu, i fod yn ufudd iddynt, a bod yn barod i wneud unrhyw weithred dda. Titus, 3:1

O Dduw, boed i'r bywyd syml rwyf fi wedi ei ddilyn gael ei dderbyn gennyt ti.
Amen.

Oes raid i ni sefyll yn gadarn dros yr hyn rydyn ni'n ei gredu?
Fyddech chi'n barod i sefyll fel y gwnaeth Polycarp?